

Cyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf

Hysbysiadau Cosb Benodedig am golli'r ysgol

Cod Ymddygiad

Medi 2014



1. Sail a rhesymeg gyfreithiol

Mae presenoldeb rheolaidd a phrydlon disgyblion yn yr ysgol yn ofyniad cyfreithiol ac yn hanfodol er mwyn i ddisgyblion wneud y mwyaf o'r cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddyn nhw lwyddo mewn bywyd a dod yn oedolion sy'n cymryd rhan yn weithredol yn eu cymunedau. Mae gan blant a phobl ifainc yr hawl i dderbyn addysg briodol sy'n diwallu'n hanghenion, a'u bod, pan ydyn nhw yn yr ysgol, mewn risg llai o gael eu niweidio.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd, yn cyrraedd yn brydlon ac wedi ymgysylltu'n llwyr â'r Cwricwlwm. Ond i rai dysgwyr, mae mynychu'r ysgol yn rheolaidd yn her am amryw o resymau. Mae amrediad o strategaethau asesu ac ymyrraeth ar gael gan ysgolion a swyddogion yr Awdurdodau Lleol yn gymorth i deuluoedd fynd i'r afael â rhwystrau yn ymwneud â mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Bydd sancsiynau o unrhyw natur yn cael eu defnyddio pan fo popeth arall wedi methu.

Yng Nghymru, mae deddfwriaeth (Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013) wedi rhoi pwerau newydd i awdurdodau lleol gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig i rieni plant a phobl ifainc sy'n absennol yn rheolaidd o'r ysgol ac uned cyfeirio disgyblion. Argymhellir, yn Rhondda Cynon Taf, fod y Gwasanaeth Mynychu a Lles yn rhan o'r Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes yn gyfan gwbl gyfrifol am gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig ar gais penaethiaid, eu dirprwyon sydd wedi'u henwebu neu'r heddlu.

Dirwy o £60 yw hysbysiad cosb benodedig sy'n cael ei gyflwyno i riant/cynhaliwr o ganlyniad i absenoldeb y plentyn o'r ysgol heb ganiatâd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig yn fodd ychwanegol o fynd i'r afael ag absenoldebau o'r ysgol heb ganiatâd, ac yn benodol mewn amgylchiadau lle bo disgwyliad rhesymol y bydd eu cyflwyno yn gwella'r sefyllfa yn y dyfodol. Mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar rieni/cynhalwyr i sicrhau bod y plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd unwaith iddo gofrestru â'r ysgol. Mae'n drosedd pan fo rhiant/cynhaliwr yn methu i gyflawni'r ddyletswydd honno, ac yn methu â rhoi rheswm teilwng dros absenoldebau.

Dyma'r deddfwriaethau sy'n llywodraethu gweithredu'r Hysbysiadau Cosb Benodedig:

- Adran 444A ac Adran 444B Deddf Addysg 1996;
- Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006;
- Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013;
- Mesur Hawliau'r Plentyn (Cymru) 2011;
- Confensiynau y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Hawl i Dderbyn Addysg)

Mae gofyn i bennaethiaid benderfynu awdurdodi absenoldebau ac yna defnyddio cod (Codau Presenoldeb Cymru 2010) i gategoreiddio'r rheswm dros yr absenoldeb. Mae gan bob ysgol Bolisiau Presenoldeb ac mae rhaid iddyn nhw amlinellu'n glir y gweithdrefnau sydd mewn lle o ddydd i ddydd yn dilyn absenoldeb disgybl a sut byddan nhw'n penderfynu a yw'r absenoldeb yn gyfiawn ai peidio. Mae rheoliadau'n nodi'r rhesymau statudol cyfiawn (yn ôl y gyfraith) dros fod yn absennol o'r ysgol:-

- Mae'r absenoldeb wedi'i gymeradwyo;
- Nid oedd y disgybl yn gallu mynd i'r ysgol o ganlyniad i salwch neu achos anochel arall;

- Roedd y plentyn yn absennol ar ddiwrnod sydd wedi'i neilltuo ar gyfer crefydd;
- Mae'r awdurdod lleol wedi methu â gwneud trefniadau teithio priodol i hwyluso mynychu'r ysgol (Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008);
- Mae'r plentyn wedi'i wahardd.

Yn dilyn cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig, mae gofyn bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn gweithredu Cod Ymddygiad. Bydd pob partner yn ei ddefnyddio yn rhan o'i ddyletswyddau statudol i sicrhau presenoldeb yn yr ysgol. Yn RhCT, awgrymir bod y Gwasanaeth Mynychu a Lles yn gyfan gwbl gyfrifol am swyddogaethau gweithredol y Cod Ymarfer hwn ar ran yr Awdurdod Lleol. Bydd hyn yn sicrhau bod y broses yn cael ei rheoli'n gyson ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol.

2. Pwy sy'n gallu cyflwyno hysbysiad cosb benodedig?

Mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi'r pŵer i benaethiaid a'r heddlu (gan gynnwys dirprwyon sydd wedi'u henwebu) yn ogystal â swyddogion awdurdodau lleol dynodedig i gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig.

Serch hynny, er mwyn sicrhau cysondeb ac er mwyn osgoi'r posibilrwydd y caiff mwy nag un hysbysiad cosb benodedig ei gyflwyno, awgrymir y bydd y Gwasanaeth Mynychu a Lles yn gyfan gwbl gyfrifol am drefniadau rheoli a phrosesu yn RhCT.

Bydd y gwasanaeth yn gweithio ar y cyd ac mewn partneriaeth ag ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion a swyddogion heddlu lleol i sicrhau:

- Bod hysbysiadau cosb benodedig yn cael eu defnyddio'n gyson;
- Ni chaiff hysbysiadau cosb benodedig eu cyflwyno pan fo gweithdrefnau dan adran 444 (1) neu (1A) yn cael eu hystyried neu pan fo'r gweithdrefnau wedi dechrau;
- Ni chaiff perthnasau rhwng ysgolion a theuluoedd eu cyfaddawdu;
- Nid oes unrhyw wrthdaro ag unrhyw ymyriad arall sydd mewn lle.

3. Ymarfer presennol RhCT mewn ymateb i absenoldeb disgybl

Mae Gwasanaeth Mynychu a Lles RhCT wedi datblygu pecyn cymorth Presenoldeb. Caiff y pecyn cymorth ei ddefnyddio gan ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion er mwyn sicrhau bod rhwymedigaethau statudol ar gyfer prosesau ac arferion cofrestru yn cael eu rheoli'n effeithiol, a blaenoriaethir presenoldeb da, gan ei gysylltu'n agos â deilliannau gwell.

Mae'r pecyn cymorth yn amlinellu'r camau dilynol y dylai ysgolion eu cymryd mewn perthynas ag absenoldeb. Mae'n bwysig bod staff ysgol yn gweithredu cyn gynted â phosibl, pan fo arwyddion bod disgybl yn datgysylltu o addysg. Yn dilyn ymyraethau cyntaf ysgol, efallai ei bod hi'n briodol i gyfeirio'r achos i'r Gwasanaeth Mynychu a Lles er mwyn iddo ymchwilio i achosion o fynychu'r ysgol anrheolaidd. Ystyrir cychwyn gweithdrefnau cyfreithiol yn dilyn cyfnod o asesu ac ymyrraeth i helpu i ddatrys mater, a dim ond pan nad yw'r rhiant yn cydweithredu o gwbl neu pan fo'n cydweithredu mewn modd annigonol i gefnogi addysg y plentyn.

Nid bwriad y ddeddfwriaeth newydd ar gyfer Hysbysiadau Cosb Benodedig yw ei defnyddio mewn ymateb i achosion o gollir ysgol sydd â nodweddion llai cyndyn na'i gilydd neu er mwyn newid gwaith achos traddodiadol y Gwasanaeth Mynychu a Lles gyda theuluoedd. Bwriad defnyddio Hysbysiadau Cosb Benodedig yw ar gyfer ymyriadau buan a chânt eu hystyried fwyaf effeithiol pan gyflwynir hwy ar gyfer

amgylchiadau penodol, dros gyfnodau fel Cyfnod Allweddol 4, cyn arholiadau neu hyd yn oed â grŵp oed penodol. Ni fydd y broses Hysbysiadau Cosb Benodedig yn ymateb i amgylchiadau uniongyrchol. Hynny yw, bydd ymgyrchoedd triwantiaeth a llythyron rhybudd, sy'n ofynnol yn rhan o'r broses, mewn nifer o achosion yn ddigonol er mwyn codi ymwybyddiaeth rhieni o'r pryderon, ac yn gwella'r sefyllfa.

Mae'r Cod Ymddygiad hwn yn diffinio sut bydd Rhondda Cynon Taf yn cyflwyno a gweithredu'r broses Hysbysiadau Cosb Benodedig. Bydd yn nodi'r amgylchiadau a meini prawf trothwy y mae disgwyl y bydd yn gymwys mewn modd cyson a theg ar hyd a lled y fwrdeistref sirol, a'r sawl sydd wedi'u hawdurdodi i ofyn i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig. Hynny yw, bydd rhaid i benaethiaid a'r heddlu a'u dirprwyon sydd wedi'u henwebu gydymffurfio â'r hyn sydd wedi'i nodi yn y Cod Ymarfer hwn.

4. Amgylchiadau lle gellir cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig

Ysgolion/Unedau Cyfeirio Disgyblion a/neu'r Heddlu fydd yn gyfrifol am **wneud cais** i'r Gwasanaeth Mynychu a Lles gyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig. Gellid ystyried bod hysbysiadau cosb benodedig yn briodol yn yr amgylchiadau canlynol:-

- Pan fo lleiafswm o 10 sesiwn absennol heb ganiatâd yn ystod y tymor presennol (nid oes rhaid iddyn nhw fod yn sesiynau olynol);
- Pan fo disgybl yn gyson yn hwyr ac yn cyrraedd ar ôl y sesiwn gofrestru, hynny yw, mwy na 10 sesiwn yn ystod y tymor; (Argymhellir bod y sesiwn gofrestru yn para 30 munud);
- Pan fo rhieni/cynhalwyr yn methu ag ymgysylltu ag ysgolion a/neu'r Gwasanaeth Mynychu a Lles i wella presenoldeb a phan nad oes sancsiynau cyfreithiol eraill ar y gweill;
- Cymryd amser o'r ysgol i fynd ar wyliau heb ganiatâd yr ysgol;
- Pan fo disgybl yn dod i sylw'r Heddlu'n rheolaidd yn ystod oriau ysgol am fod yn absennol o'r ysgol heb reswm derbyniol.

Unwaith bod yr amgylchiadau wedi'u profi, bydd y Gwasanaeth Mynychu a Lles yna'n asesu p'un ai y dylid cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig, gan ystyried y canlynol:-

- Lefel yr absenoldeb;
- Unrhyw ystyriaethau cydraddoldeb mewn perthynas â'r plentyn neu'r teulu (fel sydd wedi'u rhestru ym Mholisi Cydraddoldeb y Cyngor);
- Unrhyw ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig;
- Hanes o'r materion sy'n ymwneud â phresenoldeb a'r camau a gymerwyd;
- Cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru;
- Y tebygrwydd y bydd hysbysiad cosb benodedig yn effeithiol fel dull o sicrhau cydymffurfiaid;
- Lefel ymgysylltiad/cydweithrediad rhiant.
- Unrhyw effaith andwyol y byddai dirwy yn ei chael ar les y teulu.

5. Y weithdrefn ar gyfer cyflwyno hysbysiad cosb benodedig

Bydd y Gwasanaeth Mynychu a Lles yn ymateb i bob cais i gyflwyno hysbysiad cosb benodedig fewn 10 niwrnod ysgol o'i dderbyn ac os yw'r cais yn cwrdd â phob maen prawf, bydd y gwasanaeth yn:-

- Anfon llythyr rhybudd ffurfiol at y rhiant/cynhaliwr yn ei hysbysu efallai y bydd yn dderbyn hysbysiad cosb benodedig, a pham;
- Pennu cyfnod o 15 diwrnod lle na ddylai'r disgybl fod yn absennol heb ganiatâd o'r ysgol;
- Ar ôl y cyfnod hwnnw, lle nad oes gwelliant, caiff hysbysiad cosb ei anfon drwy'r post dosbarth cyntaf;
- Os oes gwelliant ac os nad yw'r disgybl wedi bob yn absennol heb ganiatâd, ni chaiff hysbysiad cosb ei anfon.

Noder lle bod ysgol yn gwneud cais i gyflwyno hysbysiad cosb benodedig mewn ymateb i absenoldeb heb ganiatâd i fynd ar wyliau, ni fydd y llythyr rhybudd ffurfiol na'r cyfnod gwella o 15 diwrnod yn berthnasol.

6. Ystyriaethau cyfreithiol ymarferol

Mae hysbysiad cosb benodedig yn £60 os caiff ei dalu o fewn 28 diwrnod i dderbyn yr hysbysiad, ac mae'n codi i £120 os caiff ei dalu ar ôl 28 diwrnod ond o fewn 42 diwrnod i dderbyn yr hysbysiad. Os na chaiff yr hysbysiad cosb benodedig ei dalu'n llawn erbyn diwedd y 42 diwrnod, rhaid i'r Awdurdod Lleol naill ai: -

- Erlyn y rhiant/cynhaliwr yn ôl yr arfer dan adran 444(1) ac (1A) Deddf Addysg 1996, neu;
- Diddymu'r hysbysiad cosb benodedig (dan amgylchiadau cyfyngedig iawn fel yr amlinellir yn y cod ymddygiad hwn).

Dim ond un hysbysiad cosb benodedig fydd yn cael ei gyflwyno i riant ym mhob blwyddyn academaidd. Ond os ydy mwy nag un plentyn nad yw'n mynychu'r ysgol yn rheolaidd mewn teulu, efallai y bydd hysbysiadau cosb benodedig yn cael eu cyflwyno i fwy nag un plentyn yn y teulu hwnnw. Bydd y Gwasanaeth Mynychu a Lles yn penderfynu a ddylid cyflwyno hysbysiad cosb benodedig i un rhiant/cynhaliwr neu'r ddau.

Nid oes cyfyngiad o safbwynt y nifer o weithiau y gall rhiant dderbyn rhybudd ffurfiol ynghylch dderbyn hysbysiad cosb benodedig. Serch hynny, byddai'n annerbiniol rhoi 'rhybuddion' dro ar ôl tro heb fod ymchwiliadau ffurfiol wedi'u gwneud i'r amgylchiadau ehangach.

7. Talu Hysbysiad Cosb Benodedig

Bydd gwybodaeth am y trefniadau ar gyfer talu ar yr hysbysiad cosb.

Trwy dalu'r hysbysiad, ni fydd y rhiant/cynhaliwr yn cael ei erlyn am y cyfnod dan sylw ac ni ellir ei erlyn wedi hynny o dan bwerau gorfodi eraill (adran 444 (1)) am y cyfnod dan sylw yn yr hysbysiad.

Yn unol ag Adran 21 y Rheoliadau, mae RhCT yn cadw unrhyw refeniw o unrhyw hysbysiad cosb benodedig i dalu costau gorfodi yn ymwneud â chyflwyno a chasglu arian neu os ydy achosion o beidio â thalu yn arwain at erlyniad.

8. Peidio â thalu Hysbysiad Cosb Benodedig

Bydd peidio â thalu hysbysiad cosb yn symbylu gweithdrefnau erlyn dan adran 444 Deddf Addysg 1996.

9. Diddymu Hysbysiad Cosb Benodedig

Unwaith y mae hysbysiad cosb benodedig wedi cael ei gyflwyno, caniateir ei ddiddymu ble:

- Bod tystiolaeth ar gael bod yr hysbysiad cosb wedi ei gyflwyno i'r unigolyn anghywir/i'r cyfeiriad anghywir;
- Nad oedd yr hysbysiad wedi cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad hwn;
- Na ddylid fod wedi'i gyflwyno yn y lle cyntaf, h.y. ar ôl darparu tystiolaeth feddygol (mae gyda rhieni/cynhalwyr 15 diwrnod i gyflwyno tystiolaeth);

Os yw hysbysiad cosb wedi ei ddiddymu, rhoddir hysbysiad o hynny i'r sawl a'i derbyniodd a chaiff unrhyw swm a dalwyd fel cosb yn unol â'r hysbysiad hwnnw ei ad-dalu i'r unigolyn a'i talodd. Ni fydd unrhyw weithrediadau'n parhau nac yn cael eu sefydlu yn erbyn y rhiant/cynhaliwr mewn cysylltiad â'r hysbysiad a ddiddymwyd nac am drosedd dan adran 444(1A) Deddf Addysg 1996 sy'n deillio o'r un amgylchiadau.

Does dim hawl statudol i apelio yn erbyn cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig. Pe hoffai rhiant/cynhaliwr wrthwynebu Hysbysiad Cosb Benodedig, rhaid iddo gyflwyno cwyn i'r Gwasanaeth Mynychu a Lles a/neu wynebu gweithdrefnau yn Llys yr Ynadon dan Adran 444(1) Deddf Addysg 1996.

10. Polisi a chyhoeddusrwydd

Er mwyn sicrhau bod rhieni a chynhalwyr yn llwyr ymwybodol o ddeddfwriaeth yn ymwneud â Hysbysiadau Cosb Benodedig, mae'n hanfodol bod pob ysgol/Uned Cyfeirio Disgyblion (gyda chefnogaeth y bwrdd llywodraethu/bwrdd rheoli) yn cynnwys gwybodaeth glir am ddeddfwriaeth yn ymwneud â Hysbysiadau Cosb Benodedig yn y Polisi Mynychu.

11. Adolygu ac adrodd yn flynyddol

Bydd y Gwasanaeth Mynychu a Lles Rhondda Cynon Taf yn monitro'r defnydd o hysbysiadau cosb benodedig fel rhan o broses sicrwydd ansawdd. Bydd data hefyd ar gael i Bwyllgor Craffu'r Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes, Uwch Reolwyr a Llywodraeth Cymru ar gais.

Adolygir y cod ymddygiad hwn yn flynyddol a gallai gael ei ddiwygio yn dibynnu ar ganlyniad adolygiad y flwyddyn flaenorol.

12. Sut i gael rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am weithredu'u cod ymddygiad hwn a'r hysbysiadau cosb benodedig ar gael o'r:

Prif Swyddog Eryl,
Y Gwasanaeth Mynychu a Lles,
Tŷ Trevithick,
Abercynon,
CF45 4UQ (01443 744282) presenoldeballes@rctcbc.gov.uk